Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Anifeiliaid a'r Amgylchedd Ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) **Adolygiad Blynyddol 2022/23**

Arwain DGC
Defnydd Gwrthficrobaidd Cyfrifol
Responsible Antimicrobial Use

## Datganiad y Gweinidog yn y Senedd

Cyflwynodd Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, **ddatganiad** ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR). Crynhodd gynnydd **Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd ar Anifeiliaid a'r Amgylchedd Cymru 2019-2024**.



Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd ymrwymiadau pellach ar gyfer cyflawni AMR yng Nghymru, ac ymrwymodd adnoddau ychwanegol i barhau â'n gwaith yn y dyfodol.

## Cynnydd Rhwydwaith Hyrwyddwyr Presgripsiynu Milfeddygol (HPM)


Hyd yn hyn, mae Arwain DGC wedi gweithio gyda 51 milfeddyg, o 44 practis milfeddygol. Enillodd y rhwydwaith y wobr "Prescribing and Stewardship" yn Antibiotic Guardian 2022 Shared. Cyd-gynhyrchodd Arwain DGC a'r rhwydwaith HPM God Ymddygiad a chanllawiau Clinigol ar gyfer practisau anifeiliaid mawr.



## Samplu Amgylchedd Fferm (Monitro patrymau AMR)

Gwnaed cynnydd da ar 54 o ffermydd cig eidion, defaid a llaeth yng Nghymru drwy samplu dwys, ailadroddus.

Bydd hyn yn galluogi cydberthynas rhwng patrymau AMU ac AMR yn y dyfodol.




## Croesawu aelodau newydd

Croesawodd Grŵp Cyflawni AMR Anifeiliaid a'r Amgylchedd aelodau newydd a chynnal gweithdy wyneb yn wyneb llwyddiannus drwy'r dydd yng Nghaerdydd a ddaeth â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd.






## Ffyrdd arloesol o gadw anifeiliaid yn iach

Rydym yn defnyddio technoleg i archwilio datrysiadau bioddiogelwch ac amaethyddiaeth fanwl i leihau baich clefydau a'r defnydd o wrthfiotigau mewn anifeiliaid fferm.

**Mae gwaith wedi dechrau ar 12 fferm**, a gynhaliodd 6 diwrnod agored, ar dreialu technoleg newydd i wella iechyd anifeiliaid ac felly lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfiotigau.

## Casglu data AMU ar gyfer Gwartheg a Defaid

Mae dros 7,500 o gyfrifiadau wedi'u cynhyrchu'n wirfoddol o ffermydd Cymru sy'n aelodau o FAWL / WLBP.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023
WG48638